# Cofrestrfa Tir EF

## Gwybodaeth Ymddiried

**JO**

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**
**Gellir cyflwyno'r ffurflen hon gyda chais ar Ffurflen AP1, FR1 neu ADV1 lle:**

- nad yw panel 9 Ffurflen FR1 neu ADV1 wedi ei gwblhau ac mae'r ceisydd yn fwy nag un person, neu
- y mae'r Ffurflen AP1 yn berthnasol i drosglwyddiad (yn Ffurflen AS1, AS3, TP1, TP2, TR1, TR2 neu TR5) neu brydles cymalau penodedig (o fewn rheol 58A o Reolau Cofrestru Tir 2003) ystad gofrestredig i fwy nag un person (y Cydberchnogion), ac
  - nid yw'r panel datganiad o ymddiried yn y trosglwyddiad neu brydles wedi ei gwblhau ac/neu nid yw'r trosglwyddiad wedi ei gyflawni gan y Cydberchnogion, ac
  - nid yw'r ystad a drosglwyddir neu a brydlesir yn rhent-dâl, rhyddfraint, proffid neu faenor.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Nodwch yr un wybodaeth ag sydd yn naill ai'r trosglwyddiad neu brydles i'r Cydberchnogion neu ym mhanel 6 Ffurflen ADV1. Gadewch yn wag os cyflwynir y ffurflen hon gyda Ffurflen FR1.

**1** Rhif(au) teitl yr eiddo:

Nodwch y cyfeiriad gan gynnwys y cod post (os oes un) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo fel y mae'n ymddangos naill ai yn y trosglwyddiad neu brydles i'r Cyd Berchnogion, ym mhanel 3 Ffurflen ADV1 neu ym mhanel 2 Ffurflen FR1.

**2** Eiddo:

**3** Dyddiad:

Rhowch yr enw(au) a chyfeiriad(au) llawn, fel sydd yn naill ai'r trosglwyddiad neu brydles i'r Cydberchnogion, paneli 6 a 7 Ffurflen ADV1 neu baneli 1 ac 8 Ffurflen FR1.

**4** Cydberchnogion:

**Llenwch naill ai hwn neu banel 6.**

Rhowch 'X' yn y blwch priodol.

Os ydych yn cwblhau'r pedwerydd blwch, rhowch fanylion naill ai'r ymddiried neu'r offeryn ymddiried o dan yr hwn y mae'r Cydberchnogion yn dal yr eiddo.

Bydd y cofrestrydd yn cofnodi cyfyngiad Ffurf A yn y gofrestr os rhoddir 'X':

- yn yr ail neu'r trydydd blwch, neu,
- yn y pedwerydd blwch, oni bai ei fod yn glir bod y Cydberchnogion yn dal ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel cyd-denantiaid.

Os yw'r panel hwn yn cael ei gwblhau, rhaid i bob Cydberchennog arwyddo.

Gweler *Joint property ownership* a *chyfarwyddyd ymarfer 24: ymddiriedau tir preifat* am arweiniad pellach. Mae'r ddau ar gael o wefan GOV.UK.

**5**

☐ Mae'r Cydberchnogion yn datgan eu bod i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel cyd-denantiaid

☐ Mae'r Cydberchnogion yn datgan eu bod i ddal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel tenantiaid cydradd â chyfrannau cyfartal

☐ Mae'r Cydberchnogion yn datgan eu bod yn dal yr eiddo ar ymddiried ar eu cyfer eu hunain yn unig fel tenantiaid cydradd â'r cyfrannau anghyfartal canlynol: (*cwblhewch*)

☐ Mae'r Cydberchnogion i ddal yr eiddo (*cwblhewch*):

Llofnod pob Cydberchennog ____________________

Dyddiad:

Os yw’r panel hwn yn cael ei lenwi, rhaid i drawsgludwr arwyddo.

Gweler *Joint property ownership* a *chyfarwyddyd ymarfer 24: ymddiriedau tir preifat* am arweiniad pellach.

6 O dan delerau datganiad ysgrifenedig o ymddiried dyddiedig (*cwblhewch*)

☐ mae’r Cydberchnogion yn dal yr eiddo ar ymddiried fel cyd-denantiaid ar eu cyfer eu hunain yn unig

☐ nid yw’r Cydberchnogion yn dal yr eiddo ar ymddiried fel cyd-denantiaid ar eu cyfer eu hunain yn unig

Llofnod y trawsgludwr ____________________

Dyddiad:

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 05/18